WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adolygiad o Drefniadau Rheoli yn yr Is-adran Ficrobioleg

# Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 653A2013

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Phil Jones, Malcolm Latham, Mandy Townsend a Gabrielle Smith.

# Cynnwys

Mae gan yr Ymddiriedolaeth weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau microbioleg ond nid yw'r trefniadau na'r strwythurau presennol yn ddigon cadarn eto i helpu i'w gwireddu.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion | 5 |
| Adroddiad manwl | |
| Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi meddu ar weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau microbioleg ers cryn amser, dim ond yn ddiweddar y datblygwyd cynlluniau manwl i wireddu'r weledigaeth hon | 7 |
| Nid yw'r labordai microbioleg wedi'u trefnu'n un gwasanaeth ac nid yw'r trefniadau presennol yn cefnogi'r newidiadau gwasanaeth angenrheidiol | 9 |
| Strwythurau is-adrannol | 9 |
| Gwasanaethau clinigol | 10 |
| Nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro perfformiad a gwasanaethau wedi'u datblygu'n ddigonol | 12 |
| Sicrwydd ansawdd | 12 |
| Cofrestrau risg | 13 |
| Gwybodaeth am berfformiad | 13 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Mae gan wasanaethau microbioleg ran flaenllaw i'w chwarae o ran darparu gwasanaethau clinigol i gleifion yn ogystal â diogelu iechyd y cyhoedd yn fwy cyffredinol. Mae meddygon teulu a meddygon mewn ysbytai yn dibynnu ar wybodaeth gywir a dibynadwy gan wasanaethau microbioleg i'w helpu i ganfod a thrin heintiau a'u hatal rhag lledaenu.

**2.** Mae Gwasanaeth Microbioleg Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn rhoi cymorth clinigol a gwyddonol sy'n ategu'r gwaith o ganfod a rheoli clefydau trosglwyddadwy, gan gynnwys:

- darparu gwasanaethau diagnostig labordy i ysbytai a meddygon teulu;
- arwain rhaglenni rheoli heintiau mewn ysbytai;
- cymryd rhan mewn rhaglenni arolygu rhanbarthol a chenedlaethol;
- cynorthwyo timau diogelu iechyd mewn perthynas ag achosion o heintiau a rheoli heintiau yn y gymuned.

**3.** Yn ogystal â'r swyddogaethau cyffredinol hyn, mae'r Gwasanaeth Microbioleg yn darparu cyfleusterau cyfeirio arbenigol i Gymru gyfan a'r DU.

**4.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu'r rhan fwyaf o wasanaethau microbioleg yng Nghymru ac mae gwasanaethau microbioleg yn cyfrif am bumed ran o gyllideb yr Ymddiriedolaeth. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau microbioleg yn cael eu darparu gan 324 o aelodau o staff a leolir mewn saith labordy sy'n gweithredu ar naw safle[1] ledled Cymru. Trosglwyddwyd gwasanaethau yn Ysbyty Maelor Wrecsam i'r Ymddiriedolaeth yn ddiweddar ym mis Hydref 2013 ac mae cynlluniau ar waith i drosglwyddo gwasanaethau microbioleg o Ysbyty Llwynhelyg yn 2014.

**5.** Adolygwyd gwasanaethau microbioleg ddiwethaf yn 2007. Ar yr adeg honno, nodwyd gennym y gellid atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer monitro ansawdd, y gellid gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a bod diffyg prosesau cyson a safonedig. Mae gwaith mwy diweddar gan yr Ymddiriedolaeth wedi nodi nifer o broblemau sy'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir, yn arbennig y galw cynyddol am wasanaethau a phrinder adnoddau i ateb y galw i weithio saith diwrnod, er mwyn ymateb i argyfyngau neu ddarparu gwasanaethau arbenigol.

**6.** Fel rhan o'n rhaglen gwaith archwilio yn yr Ymddiriedolaeth, cynhaliwyd adolygiad o wasanaethau microbioleg. Nod ein hadolygiad oedd ateb y cwestiwn: 'A yw'r trefniadau rheoli o fewn yr Is-adran Gwasanaethau Microbioleg yn effeithiol?'

**7.** Daethom i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn meddu ar weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau microbioleg ond nad yw'r trefniadau na'r strwythurau presennol yn ddigon cadarn eto i helpu i'w gwireddu.

**8.** Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

[1] Mae'r ysbytai hyn yn: Aberystwyth, Bangor, Wrecsam, Caerdydd (Ysbyty Athrofaol Cymru a Llandochau), Caerfyrddin, Llanelli, y Rhyl, Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe.

- er bod yr Ymddiriedolaeth wedi meddu ar weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau microbioleg ers cryn amser dim ond yn ddiweddar y datblygwyd cynlluniau manwl i wireddu'r weledigaeth hon;
- nid yw'r labordai microbioleg wedi'u trefnu'n un gwasanaeth ac nid yw'r trefniadau presennol yn cefnogi'r newidiadau gwasanaeth angenrheidiol;
- nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro perfformiad a gwasanaethau wedi'u datblygu'n ddigonol.

# Argymhellion

A1 Nid oes unrhyw gytundeb cyffredin ar strwythur y gwasanaeth heblaw am y rhwydwaith a reolir, sy'n effeithio ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu'n lleol. Dylai'r Ymddiriedolaeth:

- benderfynu'n gyflym ar strwythur y gwasanaeth, er enghraifft, modelau 'prif ganolfan ac is-ganolfannau' neu gadw'r strwythur presennol sy'n seiliedig ar gydffederasiwn;
- egluro a safoni'r model gwasanaethau clinigol a ddarperir i fyrddau iechyd a lle mae'n cyd-fynd â chyfrifoldebau ehangach o ran iechyd y cyhoedd.

A2 Mae diffyg eglurder ynghylch diben y grŵp rheoli gweithredol a'r uwch dîm rheoli. Dylai'r Ymddiriedolaeth:

- gysoni'r strwythurau rheoli â'r model ad-drefnu;
- nodi rôl y grŵp rheoli gweithredol yn glir;
- sefydlu uwch dîm rheoli sy'n addas at y diben ac sydd â chylch gorchwyl clir er mwyn rheoli cyfeiriad strategol y gwasanaeth, darparu arweinyddiaeth glinigol a sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol;
- atgyfnerthu ac egluro'r cymorth rheoli cyffredinol a'r cymorth rheoli busnes sydd ei angen ar yr Is-adran.

A3 Nodwyd blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu er mwyn gwireddu gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer gwasanaethau microbioleg dros y tair blynedd nesaf.

Bydd angen i'r Is-adran a'r Bwrdd gyflwyno trefniadau monitro cadarn er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu hyn yn cael eu cyflawni a bod y weledigaeth hon yn cael ei gwireddu.

A4 Dylai'r Is-adran sicrhau bod gwaith cynllunio swyddi microbiolegwyr meddygol ac adolygiadau o berfformiad a datblygiad staff biomeddygol yn cael eu defnyddio i gefnogi'r cyfeiriad teithio.

| | |
|---|---|
| A5 | Nid yw'r risgiau a nodir yn y gofrestr risg is-adrannol wedi'u cysylltu'n glir ag amcanion yr Is-adran ac mae rhai digwyddiadau yn cael eu cofnodi'n anghywir fel risgiau. Dylai'r Is-adran:<br>• sicrhau bod hyfforddiant neu gymorth priodol ar gael i staff sy'n gyfrifol am lunio cofrestrau risg labordai unigol a'r gofrestr risg is-adrannol;<br>• atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer nodi'r risgiau o ran cyflawni ei hamcanion;<br>• sicrhau bod y gofrestr risg is-adrannol yn cael ei monitro'n effeithiol gan yr uwch dîm rheoli. |
| A6 | Prin fu'r cynnydd a wnaed dros y 18 mis diwethaf o ran datblygu fframwaith perfformiad ar gyfer gwasanaethau microbioleg.<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth fwrw ati ar fyrder i gwblhau ei gwaith ar ddiffinio mesurau perfformiad a safoni'r strwythur prisio. |

# Adroddiad manwl

## Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi meddu ar weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau microbioleg ers cryn amser, dim ond yn ddiweddar y datblygwyd cynlluniau manwl i wireddu'r weledigaeth hon

**9.** Mae gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y cyfeiriad teithio wedi'i chyfleu'n glir dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2010, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth ei strategaeth bum mlynedd, a nododd saith amcan lefel uchel. Un o'r amcanion yw 'diogelu pobl rhag clefydau heintus a pheryglon amgylcheddol' ac mae'n uniongyrchol berthnasol i wasanaethau microbioleg. Fe'i dilynwyd yn 2011 gan y Fframwaith Strategol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd, a nododd y flaenoriaeth ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau microbioleg er mwyn gwella ansawdd ac effeithlonrwydd o ystyried y dechnoleg a'r gofynion clinigol cyfnewidiol. Yn ogystal ag ad-drefnu gwasanaethau, roedd disgwyl i labordai microbioleg fabwysiadu trefniadau gweithio saith diwrnod, safoni gweithdrefnau ar draws labordai a meincnodi gwasanaethau.

**10.** Mae cynnydd o ran ad-drefnu gwasanaethau wedi bod yn dameidiog. Er bod yr amcanion yn glir ac er i adolygiadau ailgynllunio gwasanaethau ddechrau yn 2011, dim ond yn 2012 y datblygwyd cynllun cyflawni ffurfiol i ymateb i'r strategaethau hyn. Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r oedi cyn gwneud penodiadau allweddol o fewn yr Is-adran pan gyhoeddwyd y strategaethau gyntaf, a oedd hefyd yn gyfrifol am y ffaith nad oedd mwy o staff wedi ymrwymo iddynt.

**11.** Daeth y gwaith o ymgorffori labordy Ysbyty Maelor Wrecsam yn rhwydwaith labordai'r Ymddiriedolaeth i ben yn ystod hydref 2013. Dylai'r dull gweithredu gynnig templed i alluogi'r Ymddiriedolaeth i ymgorffori labordai eraill yn y rhwydwaith a chwblhau'r adolygiad o wasanaethau sy'n gweithredu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Nododd ein cyfweliadau fod oedi o hyd o ran gweithredu ar argymhellion i gyfuno gwasanaethau ar un safle er mwyn helpu i wella'r ddarpariaeth ac ymestyn trefniadau gweithio saith diwrnod. Yn fwy cyffredinol, nid oedd staff y gwnaethom siarad â hwy yn glir ynghylch yr effaith y byddai ad-drefnu gwasanaethau yn ei chael arnynt a nododd sawl aelod o staff y byddai proses ad-drefnu yn golygu lleoli gwasanaethau ar un safle rywle ar hyd coridor yr M4.

**12.** Nododd gweithdai 'Have Your Say' yr Ymddiriedolaeth, a gynhaliwyd yn ystod hydref 2012, fod staff am weld cysylltiadau cliriach rhwng blaenoriaethau sefydliadol a'u gwaith eu hunain fel y gallent weld sut maent yn cyfrannu at y gwaith o'u cyflawni. Nododd ein cyfweliadau â staff labordai nad ydynt yn ymwybodol o'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Fframwaith Strategol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd er eu bod wedi cyflawni rhai o'r blaenoriaethau, gan gynnwys mabwysiadu trefniadau gweithio saith diwrnod a'r trefniadau newydd ar gyfer darparu gwasanaeth y tu allan i oriau.

**13.** Mae strategaeth bum mlynedd yr Ymddiriedolaeth wedi'i diweddaru yn ddiweddar ac mae'r amcanion (ymrwymiadau) a nodir ynddi wedi'u symleiddio, a dylai hyn hefyd roi cysylltiadau cliriach ar gyfer staff. Erys yr amcan lefel uchel yn ddigyfnewid, ar y cyfan, sef 'diogelu'r cyhoedd rhag clefydau heintus a pheryglon amgylcheddol'.

**14.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi fframwaith cynllunio newydd ar waith, a ddylai fod yn fodd i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol i'r Gwasanaeth Microbioleg. Ar hyn o bryd mae cynllun tair blynedd wrthi'n cael ei ddatblygu er mwyn cyflawni'r amcan strategol i 'ddiogelu pobl rhag clefydau heintus a pheryglon amgylcheddol'. Mae'r cynllun hwn yn nodi tair blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithredu, sef:

- sicrhau ei bod yn haws i gleifion gael gafael ar wasanaethau canfod a rheoli heintiau modern, drwy sefydlu rhwydwaith o wasanaethau microbioleg a reolir i Gymru gyfan ac ailgynllunio gwasanaethau;
- sefydlu ein harweinyddiaeth strategol o ran heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a'r defnydd o gyfryngau gwrthficrobaidd, gan sicrhau cydbwysedd priodol wrth anelu ein hymdrechion at heintiau yn y gymuned a heintiau mewn ysbytai;
- nodi gweledigaeth glir ar gyfer mabwysiadu dilyniannu genomaidd ym maes iechyd y cyhoedd gan ganolbwyntio ar glefydau heintus drwy weithio gyda'n partneriaid strategol.

**15.** Nodir y cyfrifoldeb am gyflawni blaenoriaethau a'r amserlenni yn glir. Ategir pob blaenoriaeth gan gyfres o gamau penodol sydd i'w cymryd bob blwyddyn am y tair blynedd nesaf er mwyn cyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.

**16.** Er bod y blaenoriaethau yn gliriach ac yn cael eu perchenogi gan yr Is-adran, nid oes unrhyw gytundeb cyffredin ar strwythur y gwasanaeth heblaw am y rhwydwaith a reolir, er enghraifft, rhanbartholi gwasanaethau a darpariaeth 'prif ganolfan a lloerennau'. Heb y cytundeb hwn ar fodel y gwasanaeth ni fydd yr Is-adran yn gallu rhoi cynllun gweithredol ar waith i gyflawni'r amcan strategol a'r gwaith sydd angen ei wneud i ad-drefnu gwasanaethau. Yn y pen draw, bydd y cynllun gweithredol hwn yn integreiddio elfennau gwasanaeth, elfennau cyllid ac elfennau gweithlu ond, ar adeg ein gwaith maes, nid oedd yr elfennau hyn wedi'u nodi eto.

**17.** Bydd angen i'r cynlluniau hyn nodi'r gofynion o ran y gweithlu a gofynion cymorth cysylltiedig sydd eu hangen i gyflawni'r blaenoriaethau'n effeithiol, yn arbennig mewn perthynas â sgiliau staff, argaeledd a ffyrdd newydd o weithio. Dengys gwybodaeth am y gweithlu presennol ei fod yn heneiddio a bod chwarter y staff microbioleg yn debygol o ymddeol yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Mae traean o'r staff sy'n gweithio mewn labordai microbioleg yn cael eu defnyddio fel gweithwyr cymorth, sy'n amrywio o 26 y cant yn Aberystwyth i 40 y cant yn y Rhyl. Mae'r broses pennu cyllideb bresennol ar gyfer pob labordy wedi bod yn seiliedig ar yr alldro o'r flwyddyn flaenorol a disgwylir i bob labordy gyfrannu at arbedion gwella costau. Bydd angen i'r goblygiadau ariannol o ran cyflawni'r blaenoriaethau lywio'r broses pennu cyllideb yn y dyfodol.

**18.** Ar ôl i'r cynllun gweithredol gael ei ddatblygu, ac er mwyn sicrhau y caiff ei gyflawni'n llawer cyflymach, bydd angen i'r Is-adran a'r Bwrdd gyflwyno trefniadau monitro cadarn.

# Nid yw'r labordai microbioleg wedi'u trefnu'n un gwasanaeth ac nid yw'r trefniadau presennol yn cefnogi'r newidiadau gwasanaeth angenrheidiol

## Strwythurau is-adrannol

**19.** Mae'r rhwydwaith presennol o labordai microbioleg lleol wedi'i achredu'n llawn o dan CPA. Y rhwydwaith oedd yr ail i gael ei achredu yn y DU. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw gwasanaethau diagnostig o ansawdd uchel yn cael eu darparu. Nododd ein cyfweliadau fod staff microbioleg, boed hwy'n ficrobiolegwyr ac yn wyddonwyr biomeddygol, yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf posibl.

**20.** Mae dryswch o hyd ymhlith y staff ynghylch sut mae rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth o wasanaethau microbioleg yn cyd-fynd â'r rhaglen moderneiddio patholeg ehangach. Mae hyn yn anochel oherwydd y rhyngwyneb â Rhaglen Gydweithredol De-ddwyrain Cymru ar Batholeg a Rhaglen De Cymru ar ddyfodol gwasanaethau ysbyty yn Ne Cymru. Er mwyn datrys hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau ar y gwaith o ddatblygu fframwaith prosiect er mwyn bwrw ymlaen â'r broses o foderneiddio ac ad-drefnu gwasanaethau microbioleg ledled Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cydnabod bod angen disgrifio'r gwasanaeth labordai a'r gwasanaetha clinigol fel dwy agwedd ar wahân.

**21.** Mae gan bob labordy ei strwythur rheoli llinell ei hun ac o fewn labordai mae'r atebolrwydd a'r cyfrifoldeb yn glir. Yn lleol, mae'r trefniadau hyn yn glir. Ar lefel gwasanaeth a lefel yr Ymddiriedolaeth, mae llinellau atebolrwydd rhwng rheolwyr y labordai, y grŵp rheoli gweithredol (GRhG), yr uwch dîm rheoli (UDRh) a'r tîm rheoli is-adrannol a Phrif Weithredwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd yn llai clir. Nid yw'r trefniant hwn yn cynnig y cyfrwng sydd ei angen i ysgogi newid a llywio'r broses o ad-drefnu gwasanaethau.

**22.** Roedd y modd y mae'r GRhG a'r UDRh yn gweithredu, lle y ceir cryn dipyn o orgyffwrdd o ran yr aelodau, yn destun pryder penodol. Er i reolwyr gwasanaethau nodi bod y grŵp hwn yn bwysig i fynd i'r afael â materion gweithredol cyffredin, nid oedd unrhyw gylch gorchwyl a oedd yn nodi cwmpas a rôl y grŵp hwn a'i drefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r UGRh. Yn ei dro, nid oedd diben yr UDRh yn glir ac roedd yn gweithredu'n fwy fel fforwm rhannu gwybodaeth yn hytrach na chyflawni rôl arwain a llywodraethu strategol.

**23.** Er mwyn datrys hyn bydd angen i'r Ymddiriedolaeth wneud y canlynol:

- cysoni'r strwythurau rheoli â'r model ad-drefnu;
- nodi rôl y GRhG yn glir;
- sefydlu UDRh sy'n addas at y diben ac sydd â chylch gorchwyl clir er mwyn rheoli cyfeiriad strategol y gwasanaeth, darparu arweinyddiaeth glinigol a sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol.

**24.** Hefyd, nid oedd rheolwyr labordai yn glir ynghylch rôl y rheolwr cyffredinol a'r ffordd yr oedd y rôl hon yn darparu adnoddau ychwanegol i'r tîm rheoli. O fewn y strwythur mae'n amlwg bod angen y rôl gyffredinol hon a bod angen mwy o eglurder ynghylch y ffordd y mae'r rôl hon yn gweithredu o fewn prosesau darparu gwasanaethau strategol a gweithredol.

**25.** Mae newidiadau diweddar i'r staff o fewn yr uwch dîm rheoli dros y chwe mis diwethaf yn cynnig cyfle i ailasesu rôl uwch reolwyr a'r strwythur rheoli is-adrannol o ran rheolaeth gyffredinol ac arweinyddiaeth glinigol.

**26.** Mae'r diffyg arweinyddiaeth strategol hwn yn amlwg o'r sylwadau a wnaed gan rai aelodau o staff y gwnaethom gyfarfod â hwy fel rhan o'r maes gwaith, gan gynnwys:

- sylw gan un microbiolegydd meddygol bod llinellau atebolrwydd proffesiynol i'w cael y tu allan i'r Ymddiriedolaeth ac nad Cyfarwyddwr yr Is-adran Gwasanaethau Microbioleg na'r Cyfarwyddwr Meddygol sy'n gyfrifol amdano;
- canfyddiadau nad oes fawr ddim systemau ar waith, os o gwbl, i gymell labordai i foderneiddio;
- nid oes digon o gynnydd wedi'i wneud o ran datblygu trefniadau caffael cyffredin a phrofion diagnostig a llwyfannau dadansoddwyr cyffredin.

**27.** At hynny, nododd cyfweliadau â staff rai manteision cadarnhaol sy'n deillio o drefniadau presennol y rhwydwaith y mae angen i'r Ymddiriedolaeth eu cadw a'u datblygu ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- safoni'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd ac iechyd a diogelwch;
- rhannu'r llwyth gwaith wrth werthuso nwyddau traul neu gynhyrchion diagnostig newydd;
- safoni gweithdrefnau a phrosesau labordai sy'n galluogi staff i symud yn ddi-dor rhwng labordai.

## Gwasanaethau clinigol

**28.** Ceir amrywio o ran y ffordd y mae gwasanaethau craidd yn cael eu darparu ymhlith y byrddau iechyd gwahanol. Mae gwahaniaethau nas eglurwyd yn yr amser a roddir gan ficrobiolegwyr meddygol i gyfarwyddo gwasanaethau gofal clinigol a ddarperir i fyrddau iechyd, megis cyngor arbenigol ar ddefnyddio cyfryngau gwrthficrobaidd, cymorth a chyngor ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau a gwaith rheoli a chyngor i gefnogi gweithgarwch rheoli heintiau amlddisgyblaeth lleol. Mewn rhai labordai mae cryn gyfraniad clinigol gan y microbiolegydd meddygol yng ngwaith y labordy o ddydd i ddydd ac mewn labordai eraill nodwyd nad oes fawr ddim cyfraniad. Dywedwyd wrthym, mewn rhai labordai, bod gwyddonwyr biomeddygol â'r sgiliau priodol yn cymryd cyfrifoldeb am ddarllen a chofnodi canlyniadau profion. Ystyriwyd bod hyn yn un ffordd o sicrhau y gallai microbiolegwyr meddygol dreulio mwy o amser ar ofal cleifion uniongyrchol. Nodwyd un model clinigol yr ymddengys ei fod yn gweithio'n dda, sef: mae microbiolegwyr meddygol yng ngorllewin Cymru yn wynebu tuag allan ac yn cynnal rowndiau ward wythnosol ym mhob safle ysbyty gan gydgysylltu'n agos â'r tîm rheoli heintiau ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda.

**29.** Hefyd, nododd cyfweliadau â staff bryderon ynghylch sut mae gwasanaethau microbioleg yn cyd-fynd â chyfrifoldebau ehangach yr Ymddiriedolaeth am ddiogelu iechyd. Mae'r rhain yn rhannau pwysig o'r broses o ddarparu gwasanaethau, y mae angen eu nodi'n gliriach. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth benderfynu sut y bydd yn darparu gwasanaethau clinigol i fyrddau iechyd ac ar gyfer ei gweithgarwch goruchwylio a rheoli achosion.

**30.** Nid yw'r strwythurau sylfaenol i helpu i ddarparu gwasanaethau ac ailgynllunio gwasanaethau, megis cynllunio swyddi, wedi'u datblygu'n ddigonol. Er bod gwaith cynllunio swyddi yn cael ei wneud, dywedwyd wrthym mai prin oedd y canllawiau i gefnogi'r broses ac nad oedd gwaith cynllunio swyddi wedi'i gysylltu ag agweddau cynllunio busnes y gwasanaeth. Ni ddangosodd cyfweliadau â staff fod gwaith cynllunio swyddi yn helpu i newid gwasanaethau. Mae angen mynd i'r afael â hyn ar fyrder.

**31.** Ers mis Ebrill 2013, mae disgwyl i reolwyr gwblhau adolygiadau o berfformiad gyda staff h.y. arfarniadau, drwy'r cofnod staff electronig (ESR), sydd wedi'i gyflwyno ym mhob labordy. Dywedodd staff wrthym fod y cofnod staff electronig yn cael ei ddefnyddio fel mater o drefn i gofnodi absenoldeb oherwydd salach a gwyliau yn unig. Mae cyfweliadau â staff labordai yn nodi nad yw pob aelod o staff wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae archwiliadau sicrwydd ansawdd lleol hefyd yn dangos mai ychydig o arfarniadau sy'n cael eu cwblhau. Dywedwyd wrthym y byddai nifer yr arfarniadau sy'n cael eu cwblhau yn cynyddu erbyn cylch nesaf rhaglen achredu CPA. Yn ddiweddar darparodd y Tîm Datblygiad Proffesiynol a Sefydliadol hyfforddiant ar y broses arfarnu gan gysylltu'n benodol amcanion personol ag amcanion sefydliadol. Dylai hyn fod o ryw gymorth i feithrin gwybodaeth y staff am amcanion sefydliadol ac is-adrannol.

**32.** Dengys ffigurau o'r adroddiad mwyaf diweddar[2] ar gyfer cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol fod cydymffurfiaeth o fewn yr Is-adran yn wael ar y cyfan. Mae cofnodion hyfforddiant yn rhai papur gan mwyaf ac fe'u cedwir o fewn labordai unigol sy'n golygu ei bod yn anodd gwybod ai mater o dangofnodi yn unig sydd dan sylw. Mae'r broses o drosglwyddo'r cofnodion hyn i system Rheoli Dysgu Oracle yn mynd rhagddi mewn rhai labordai. Fodd bynnag, mae cyfweliadau â staff labordai yn nodi bod rhai aelodau o staff yn ansicr ynghylch pa gyrsiau hyfforddi statudol a gorfodol y mae angen iddynt eu mynychu. Gofynnodd staff i'r archwilwyr a oedd Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn orfodol.

[2] Adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a gynhaliwyd ym mis Hydref 2013.

**33.** Roedd y trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant statudol a gorfodol yn aneglur hefyd. Nododd staff a oedd yn gweithio mewn labordai y tu allan i Gaerdydd ei bod yn aml yn anodd mynd i ddigwyddiadau hyfforddi os nad oeddent yn cael eu darparu'n lleol. Nododd yr aelodau hyn o staff y byddent yn mynychu cyrsiau hyfforddi a ddarperid gan y bwrdd iechyd lle mae'r labordy wedi'i leoli, megis hyfforddiant tân. Nododd rheolwyr fod yr hyfforddiant hwn am ddim gan nad oes unrhyw drefniadau ffurfiol â byrddau iechyd ar gyfer darparu hyfforddiant ar hyn o bryd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar staff yn mynychu cyrsiau hyfforddi sy'n briodol ac yn cofnodi presenoldeb yn unol â hynny. Ystyrir y bydd y penderfyniad i gyflwyno Fframwaith Sgiliau Craidd y DU yn hwyluso'r broses o rannu hyfforddiant statudol a gorfodol rhwng cyrff y GIG yn y dyfodol.

**34.** Nid yw gofynion iechyd galwedigaethol wedi'u cyfleu'n glir ac mae anghysondeb rhwng y labordai o ran sut y cânt eu cynhwyso, a all egluro'r pryderon a godwyd ynghylch cydymffurfiaeth wael o bosibl o ran imiwneiddiadau yn y gweithle.

**35.** Ar hyn o bryd, mae gan yr Ymddiriedolaeth gytundebau lefel gwasanaeth â dau fwrdd iechyd (Caerdydd a'r Fro a Betsi Cadwaladr) ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol. Darperir gwasanaethau galwedigaethol ar gyfer labordai mewn byrddau iechyd eraill ar sail ffi fesul ymweliad. Ymddengys nad yw rheolwyr labordai yn ymwybodol o'r ffaith, os nad oes cytundeb lefel gwasanaeth, fod tâl yn dal i gael ei godi ar yr Ymddiriedolaeth, a nododd rhai rheolwyr fod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu ‘am ddim’.

# Nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro perfformiad a gwasanaethau wedi'u datblygu'n ddigonol

## Sicrwydd ansawdd

**36.** Mae Llawlyfr Ansawdd yn nodi'r system sydd ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth microbioleg i gynnal a gwella ansawdd ac iechyd a diogelwch. Mae'r Llawlyfr Ansawdd wedi'i drefnu yn yr un ffordd â'r safonau Achredu Patholeg Glinigol (CPA) ac fe'i hategir gan nifer o ddogfennau ansawdd a gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer y gwasanaeth diagnostig. O 2016, caiff labordai microbioleg yr Ymddiriedolaeth eu hasesu yn erbyn y safon ISO 15189 a gydnabyddir yn rhyngwladol[3] ac mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r system rheoli ansawdd yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

[3] ISO 15189:2012, Labordai Meddygol – gofynion penodol o ran ansawdd a chymhwysedd.

**37.** Mae'r Llawlyfr Ansawdd hefyd yn nodi'r dull sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. Mae'n cynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, cydymffurfiaeth â safonau CPA a chyfranogiad mewn cynlluniau asesu ansawdd allanol ac asesiadau rheoli ansawdd mewnol. Caiff rhestr o archwiliadau o systemau rheoli ansawdd ac archwiliadau iechyd a diogelwch ei chynnal a'i chyflawni ar draws labordai ac adolygir canfyddiadau lleol yng nghyfarfodydd labordy a rhwydweithiau ansawdd ac iechyd a diogelwch lleol. Cyflwynir adroddiadau ar y canfyddiadau i'r GRhG a'r UDRh hefyd.

## Cofrestrau risg

**38.** Nododd ein hadolygiad o Gofrestr Risg yr Is-adran fod angen atgyfnerthu'r dull o nodi a rheoli'r risgiau ehangach sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion Is-adrannol. Ym mis Gorffennaf 2013, nodwyd pum risg ar y Gofrestr Risg ac ychwanegwyd pob un o'r pum risg at y Gofrestr Risg dros 12 mis yn ôl. Fodd bynnag, yn ôl pob golwg, ni fu fawr ddim newid yn y sgôr risg yn ystod y cyfnod hwnnw. At hynny, nid yw'r risgiau wedi'u cysylltu'n glir â chynllun gwaith blynyddol yr Is-adran ar gyfer 2012-15 ac nid ydynt yn adlewyrchu'r risgiau a nodwyd pan gynhaliwyd adolygiad canol blwyddyn yr Is-adran ym mis Mai 2013.

**39.** Ar gyfer rhai risgiau a nodwyd ar y gofrestr risg, gallai fod wedi bod yn fwy priodol cofnodi'r risg fel digwyddiad neu achos a fu bron â digwydd, megis y problemau a oedd yn gysylltiedig â chynnal a chadw awtoclafau neu drin meithriniadau gwaed mewn modd amhriodol, a gofnodwyd ar ôl iddynt godi fel digwyddiad. Mae'r Gofrestr Risg hefyd yn anghyflawn ac nid yw'n cynnwys camau gweithredu a gynlluniwyd i liniaru risgiau, er enghraifft, yr angen i adolygu'r trefniadau ar gyfer cynnal a chadw awtoclafau ym mhob labordy.  Nododd adroddiad i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Hydref 2013 yn glir fod yr adolygiad hwn yn mynd rhagddo.

## Gwybodaeth am berfformiad

**40.** Mae'r ffaith nad oes gennym unrhyw wybodaeth i fonitro perfformiad gwasanaethau microbioleg wedi'i chydnabod fel gwendid ers peth amser ond ni wnaed digon o gynnydd o ran mynd i'r afael â'r gwendid. Mae adroddiadau diweddar i'r Bwrdd sy'n ymwneud â gwasanaethau microbioleg wedi'u cyfyngu i fonitro'r cynnydd a wnaed o ran ad-drefnu gwasanaethau.

**41.** Trafodwyd gwaith ar ddatblygu dangosfwrdd perfformiad ar gyfer gwasanaethau microbioleg gyntaf gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar ddechrau 2012 ac mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i ddiffinio mesurau perfformiad ac ansawdd a diogelwch priodol, yn ogystal â mapio'r wybodaeth sydd ar gael ac sydd ei hangen i lunio'r mesurau.  Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i fframwaith adrodd ar berfformiad mwy cadarn fod ar waith ar gyfer y gwasanaeth erbyn mis Chwefror 2014.

42. Prin yw'r dystiolaeth bod perfformiad cymharol labordai unigol yn cael ei fonitro gan y grŵp rheoli gweithredol a'r uwch dîm rheoli, heblaw am gwynion, digwyddiadau a gwariant. Mae cyfweliadau â staff yn nodi na fu unrhyw ffactorau ysgogi i feincnodi'r gwasanaeth ond byddent yn ei groesawi am y byddai'n eu galluogi i asesu'r galw a chynhyrchiant. Gallai'r Is-adran wneud mwy o ddefnydd o'r wybodaeth a gesglir fel mater o drefn fel rhan o'i gweithrediadau o ddydd i ddydd. Er enghraifft, caiff cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau microbioleg i fyrddau iechyd eu monitro'n rheolaidd ond ni ddefnyddir y wybodaeth i gymharu'r llwyth gwaith ar draws labordai. Yn 2012-13, cynhaliwyd tua 1.4 miliwn o brofion diagnostig gyda'r labordai yng Nghaerdydd ac Abertawe yn ymdrin â'r nifer fwyaf o samplau.

43. Cynhelir cyfres o archwiliadau rheolaidd mewn perthynas â'r system rheoli ansawdd, megis cydymffurfiaeth barhaus â safonau CPA, cydymffurfiaeth â'r amseroedd gweithredu ar gyfer profion diagnostig gwahanol neu gydymffurfiaeth â chynlluniau sicrwydd ansawdd mewnol ac allanol.  Fodd bynnag, ni ddefnyddir yr allbynnau o'r archwiliadau hyn na'r data ar amseroedd gweithredu i fonitro perfformiad rhwng labordai na dangos ansawdd a diogelwch gwasanaethau microbioleg y tu allan i'r Is-adran.  Os bwriedir cyflwyno'r wybodaeth i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch neu'r Bwrdd, bydd angen i'r Is-adran ystyried sut y gellir cyflwyno'r wybodaeth, er mwyn sicrhau y gall y darllenydd ei dehongli'n hawdd a deall pam mae'n bwysig a pha gamau sy'n cael eu cymryd i wella perfformiad.

44. Nid yw gwybodaeth am gostau cymharol cynnal profion diagnostig a darparu gwasanaethau rhwng y labordai wedi'i datblygu'n dda, sy'n golygu ei bod yn anodd asesu effeithlonrwydd ariannol y gwasanaeth, effaith strategaethau a datblygiadau a lle y gellir gwneud gwelliannau.  Mae gwaith yn mynd rhagddo i safoni'r strwythur prisio a ddefnyddir i godi tâl am y gwahanol brofion diagnostig er mwyn ystyried cost staff a nwyddau traul. Bydd hyn yn helpu i ddarparu gwasanaeth mwy costeffeithiol drwy sicrhau bod costau yn cael eu haddasu yn unol â chwyddiant neu'n ystyried technoleg sy'n newid

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk